

The Rt Hon James Cleverly
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2345

08 Chwefror/February 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary,

Bodloni anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol – Arolwg pa mor dda mae'r heddlu, Gwasanaeth Erllyn y Goron a'r Gwasanaeth Prawf yn helpu dioddefwyr trosedd.

Meeting the needs of victims in the criminal justice system – An inspection of how well the police, the Crown Prosecution Service and the Probation Service support victims of crime.

Yn unol â'r statud, dwi'n ysgrifennu atoch chi hefo fy sylwadau ar Arolwg Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd Ei Fawrhydi, gan fodloni anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol.

As required by statute, I am writing to you with my comments on His Majesty's Criminal Justice Joint Inspection, meeting the needs of victims in the criminal justice system.

Dwi'n croesawu canfyddiadau'r arolwg hwn o ran pa mor dda mae'r system cyfiawnder troseddol yn bodloni anghenion dioddefwyr, o'r adroddiad cychwynnol tan mae'r euogfarnu'r troseddwr. Un o flaenoriaethau cyffredinol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd ydy sicrhau fod dioddefwyr a phobl fregus yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth ac â hyder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r adroddiad wedi nodi er bod y tri gwasanaeth wedi ymroi gwella ansawdd cymorth i ddioddefwyr, gall galw a llwyth gwaith trwm arwain at unigolyn yn methu buddsoddi'r amser a'r sylw angenrheidiol ym mhob cam o'r achos. Dylid nodi na chafodd Heddlu Gogledd Cymru ei arolygu fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, mi wnâi fonitro a gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran eu gwaith er mwyn cynorthwyo dioddefwyr trosedd.

I welcome the findings of this inspection into how well the criminal justice system meets the needs of victims, from the initial report to the conviction of the offender. One of my overarching objectives of my Police and Crime Plan is to ensure that victims and vulnerable people feel supported and have confidence in policing and the criminal justice system. The report has identified that although all three services are committed to improving the quality of support for victims, demand and high workloads can result in individuals being unable to invest the time and attention needed at every step of the case. It must be noted that North Wales Police were not inspected as part of this report, however, I will monitor and request regular updates in relation to their work to support victims of crime.

Mae'r Arolygaeth wedi nodi chwe argymhelliad. Mae un yn cynnwys gweithrediad i brif gwnstabiliaid weithio ar y cyd â'r Coleg Plismona a Chyngor y Prif Gwnstabiliaid er mwyn datblygu safon sylfaenol

The Inspectorate have identified six recommendations, one includes an action for chief constables to work alongside the College of Policing and Police Chief's Council to develop a minimum

cwblhau asesiad anghenion dioddefwr. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl i'r Coleg Plismona gysylltu er mwyn cynorthwyo datblygu'r safonau sylfaenol hyn. Byddaf yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd cwblhau'r argymhelliad hwn yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

Mae'r ail argymhelliad yn gofyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddatblygu metrigau a systemau adrodd cyflawniad Cod Dioddefwyr. Mae sgysiau'n parhau hefo fy swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru o ran cydymffurfio hefo'r Cod Ymarfer Dioddefwyr. Ar ben hyn, mae fy Swyddfa a'r Heddlu'n cael sgysiau cenedlaethol yng Nghymru drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, ynghylch sut y dylai cydymffurfio â'r Cod Ymarfer edrych ar hyn o bryd wrth i ni ddisgwyl metrigau cyflawniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a phartneriaid datganoledig ar draws Cymru at ei gilydd er mwyn cydweithredu ar faterion a heriau cyffredin. Mae cydymffurfio hefo'r Cod Ymarfer yn un o'r rhain. Cytunwyd y gwnaiff bob sefydliad rannu eu data cydymffurfiaeth am y Cod Ymarfer hefo Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, i'w drafod yn ein Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd hyn yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd bod pawb yn cydymffurfio hefo'r Cod Ymarfer.

Yr hyn sy'n bwysig, ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ydy yr ystyrir ymdriniaeth graffu hefyd a fydd yn dal ansawdd profiad y dioddefwyr yn effeithiol mewn ffordd lle na fydd y data cydymffurfio ansoddol hefo'r Cod Ymarfer yn gallu. Yn y misoedd i ddod, bydd ymdriniaeth craffu ansoddol newydd yn cael ei chyflwyno drwy ein Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Byddwn yn gallu asesu a ydy cydymffurfiaeth asiantaethau hefo'r Cod Ymarfer yn arwain at brofiad cyffredinol gwell i ddioddefwyr.

standard of the completion of victim needs assessment. North Wales Police are awaiting contact from the College of Policing to assist in developing these minimum standards. I will request regular updates on the progress of completing this recommendation at my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

The second recommendation requests that the Ministry of Justice should develop a Victims' Code performance metrics and reporting systems. There are conversations ongoing with my office and North Wales Police in relation to the compliance of the Victims Code of Practice (VCOP). In addition to this, my Office and the Force are involved in conversations at an all-Wales level, through the Criminal Justice Board for Wales, as to what current VCOP compliance activity ought to look like whilst we await the Ministry of Justice's performance metrics.

The Criminal Justice Board for Wales brings together criminal justice agencies and devolved partners across Wales to work collaboratively on common issues and challenges; VCOP compliance being one of these. It has been agreed that each organisation will share their individual VCOP compliance data with Police and Crime Commissioners, to be discussed at our Local Criminal Justice Boards. This will increase transparency and accountability of VCOP compliance by all.

Importantly, at this all-Wales level, consideration is also being given to a scrutiny approach which will effectively capture the quality of the victims' experience in a way in which the quantitative VCOP compliance data will not be able to. In the coming months, a new qualitative scrutiny approach will be introduced via our Local Criminal Justice Boards whereby we will be able to test whether agencies' compliance with VCOP results in a better overall experience for victims. The Criminal Justice Board for

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn ymgynghori hefo cydweithwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn sicrhau bydd ein hymdriniaeth ledled Cymru yn gydnaws â'u hymchwil.

Wales is liaising with Ministry of Justice colleagues to ensure our Wales-wide approach will be in line with their research.

Gwnaf barhau monitro cynnydd yr Heddlu wrth gwblhau'r argymhelliad hwn a gweithio ar y cyd hefo fy nghydweithwyr yng Nghymru. Mae hyn er mwyn sicrhau fod dioddefwyr trosedd yng Nghymru yn cael eu cynorthwyo drwy gydol eu taith cyfiawnder troseddol.

I will continue to monitor the Force's progress in completing this recommendation and work alongside my Welsh colleagues to ensure that victims of crime in Wales are supported throughout their criminal justice journey.

Yn gywir Yours sincerely



Andy Dunbobbin

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner